

## Panel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Mercher 28 Mawrth 2018  
Yr Ystafell Werdd, Parc Llanion 12.50 pm**

Yn bresennol:

Gwyneth Haywood Cadeirydd yr Awdurdod  
Y Cyngh. Mike James  
Y Cyngh. Mike Williams

Tegryn Jones, y Prif Weithredwr, ar gyfer eitem 5  
June Skilton, y Rheolwr Personél, fel Hwylusydd

1. Ymddiheuriadau  
Dim.
2. Datgan buddiant  
Dim.
3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2017  
Cadarnhawyd fod y cofnodion yn gywir.
4. Gwahardd y cyhoedd  
Penderfynodd y panel wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod.
5. Adolygu cynnydd ar sail y targedau a'r amcanion a bennwyd ar gyfer y Prif Weithredwr a chytuno ar yr amcanion ar gyfer 2018-19

Trafododd y panel adroddiad a luniwyd gan y Prif Weithredwr mewn perthynas â thargedau eleni a thrafodwyd y materion a oedd yn codi gyda ef.

Llongyfarchodd y panel y Prif Weithredwr ar y flwyddyn ddiwethaf mewn amgylchiadau anodd.

Penderfynwyd:

- a. Bod y panel y gwbl fodlon â'r perfformiad.
- b. Bod y panel yn awgrymu bod angen canolbwyntio ar y canlynol yn 2018-19:
  - i. Adolygu a rheoli adnoddau'r Awdurdod, i gynnwys proses i glustnodi blaenoriaethau gyda golwg ar bennu cyllideb weddilliol yn 2019-20;
  - ii. Cynnal ymgysylltiad â'r staff a'r Aelodau er mwyn cael budd o gyfranogiad a rheoli effaith; bydd hyn yn cynnwys elfen o adolygu adnoddau a phrosesau'r Aelodau.

- iii. Rheoli'r buddion i'r Awdurdod o ddatganiad polisi Llywodraeth Cymru ar dirweddau dynodedig.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.28pm

JS 28/03/18